



GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU ARCHWILIO CYFRIFON 2019-2020

Rhoddir RHYBUDD trwy hyn, yn unol ag Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd yn 2018):

1. O 3 Awst 2020 hyd at 28 Awst 2020, yn cynnwys y dyddiadau hynny, rhwng 9.15am a 4pm (o ddydd Llun i ddydd Gwener), y gall unrhyw un sydd â diddordeb gyflwyno cais i Bennaeth Cyllid, Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP, i archwilio a gwneud copïau o gyfrifon yr Awdurdod a enwir uchod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, gan gynnwys yr holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n berthnasol i'r cyfrifon hynny.
2. I'n galluogi i wneud y trefniadau priodol ar gyfer archwilio, gofynnwn i etholwyr drefnu apwyntiad
 - Trwy e-bost: finance@mawwfire.gov.uk,
 - Dros y ffôn: 01267 226870
 - Trwy'r post: Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin, SA31 1SP
3. Ar 1 Medi 2020, neu ar ôl y dyddiad hwnnw, hyd nes y bydd yr archwiliad wedi dod i ben, bydd unrhyw etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi, neu ei gynrychiolydd, yn cael cyfle gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w holi am y cyfrifon. Gall unrhyw gyfryw etholwr, neu ei gynrychiolydd, fynd gerbron yr Archwilydd Cyffredinol i fynegi unrhyw wrthwynebiadau i'r cyfrifon.
4. Gellir cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol trwy Clare James yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu drwy anfon neges e-bost at clare.james@audit.wales
5. Rhaid yn gyntaf roi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw wrthwynebiad i'r Archwilydd Cyffredinol yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ, neu drwy e-bost at clare.james@audit.wales. Rhaid rhoi copi o'r rhybudd ysgrifenedig i'r Pennaeth Cyllid, Pencadlys y Gwasanaeth Tân, Caerfyrddin SA31 1SP.

Rhoddir copïau o'r Datganiad o Gyfrifon i unrhyw gyfryw etholwr wedi iddo dalu swm o £10.00 + TAW am bob copi.

Dyddiedig 19 Gorffennaf 2020